# EHEDIADAU Y MEDDWL,

AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH Y

# PARCH. THOMAS CHARLES, A.B.

## O'r Bala,

*Yr hwn a orphenodd ei yrfa, Hydref 5ed,* 1814,

YN 59 MLWYDD OED,

A

# MRS. SARAH CHARLES,

EI WRAIG,

*Yr hon hefyd a fu farw y 24ain o'r un mis,*

YN 61 MLWYDD OED.

---

GAN DAFYDD CADWALADYR.

---

LLANBEDR:
ARGRAFFWYD GAN J. LEWES JOHNS, LLYRWERTHWR.

1866.

# Y RHAGYMADRODD.

MARWOLAETH Charles sydd imi newydd trist,
'Nol gradd a serch at waith ac eglwys Crist:
I'r Bala daeth pob alaeth yn gytun ;
Ei fyn'd i'r llwch sydd dristwch i bob dyn.

Pob llawen floedd a ffodd fel ofnog lu,
Mae Cymru i gyd dan gwmmwl tywyll du ;
Ei ddagrau'n llif sydd yn ireiddio'r llawr,
A'i chwerw floedd fel twrf y moroedd mawr.

*Sosasiwn* fawr ni phaid ag wylo byth,
Am ddiffodd lamp ddysgleiriaf yn ein plith ;
Dros ugain mil o blant yr ysgol rad,
Yn oer eu cri, sy'n gwaeddu "O fy nhad!"

Cymmanfa'r Beibl, lle mae goreuon byd,
A hufen bob crefyddwyr sy' yno y'nghyd,
Bod ei sylfaenwr cyntaf yn y bedd,
Mae teulu'r ffydd i gyd yn brudd eu gwedd.

Yn gynt y rhed y galar dros y llawr,
Nag arfog lu hen Alexander fawr ;
Mae'n clwyfo mwy o ddynion yn ei daith,
Na chleddyf Ffrainc mewn ugain mlynedd maith

Mae Affrica, yn swn y newydd syn,
A'u dagrau bron a gwneyd eu grudd yn wyn ;
Y Ganges fawr sy'n adrodd yn ei hiaith,
Y galarnad sy'n nglwad yr India faith.

O Rwssia oer i Ynysoedd Mor y Dê,
Mae cryf y gwan yn gwaeddi yn mhob lle ;
Bu uwch y floedd pan oedd yr Iesu ar bren,
Fe grynai'r byd, fe d'wyllai haul y nen.

Ffarwel yn awr i'r galar mawr i gyd !
Daeth i fy nghof farwolaeth Prynwr byd ;
Yngolwg hwn, ei rinwedd mawr a'i rym,
Mae angeu Charles yn gwywo, a myn'd yn ddim.

# EHEDIADAU Y MEDDWL, &c.

---

O Seion ofnog, paid ag wylo,
Nad im' glywed mwy mo'th lef ;
Fe gafodd Charles berffeithiach eglwys,
Yn awr mae'n gorphwys yn y nef.
Y cnawd a'r galon oedd yn pallu,
Duw oedd ei ran a'i nerth yn awr ;
Fe ymadawodd mewn tangnefedd,
Yn ffrwd yr iechydwriaeth fawr.

'R oedd ei farwolaet ini'n golled,
Ond iddo ef yn ennill mawr ;
Cawn ninau fedu o ffrwyth ei lafur,
Tra bo'm ni'n aros ar y llawr.
Yr egwyddorion ga'dd e' o'r Beibl,
Maent gyda ni heb ddim gwahân ;
Caiff myrdd o blant eu maethu trwyddynt
Hyd onid elo'r byd ar dân.

Mae ei DRYSORFA'n llawn danteithion,
I borthi'r ofnog gwan ei ffydd :
Y mae'r GEIRIADUR mawr fel allwedd
I ddwyn i'n golwg pethau cudd,
Ei 'madrodd rhwydd, a'i ddysg yn uchel,
Egwyddor iach nefoldeb llawn,
Mae'n cario perlau dysglaer ini,
Wna bobl Cymru'n brydferth iawn.

Y mae 'sgrifenwyr pena'r deyrnas,
A'r duwinyddion ucha' a gaed,
Yn gostwng pen a chuddio'u hwyneb,
Gan daflu'r llyfrau wrth ei draed ;
Dangosodd Cymru ddyn o'r dywedd,
Oedd yn yr arfaeth cyn bod byd—
'Run fath ag eryr yn yr awyr,
Ehedai'n uwch na rhain i gyd.

Y Doctor Morgan a'r hen Sal'sbri,
  Ddaeth a'r Trysor goreu i ni ;
Ac ar eu hol ni chafodd Cymru,
  Gyffelyb i'th EIRIADUR di :
Os cyfeiliornwyr a'i cyferfydd,
  'Mhenryw flyneddau maith yn ol,
Fydd dim i'w wneyd ond peidio'i ddarllen,
  Neu 'madael â'u dychmygion ffol.

Bu Gryffydd Jones, a Bardd Llan'ddyfri,
  Yn fendith fawr i Gymru o'r bla'n ;
Sylwadau a hymnau y ddau Williams,
  Yn dodi'r Eglwys fel ar dân ;
Ac amryw eraill yn dra ffyddlon—
  Effeithiau'u gwaith sy'n para o hyd ;
Ond pan alwyd Charles i'r winllan,
  Fe weithiodd fwy na rhai'n i gyd.

Cyfododd un o deulu Gomer,
  Wnaeth fwy na neb er dechreu'r byd,
I yru'r Beibl i bob ieithoedd,
  I gasglu eiddo Crist ynghyd ;
A hwn dan seiliau teyrnas anghrist,
  Er uched yw ei brig yn awr,
Y Gareg eiff yn llon'd y ddaear,
  Mae'n rhaid y delwau i gwympo'i lawr.

Dyma'r seren a ddisgleiriodd,
  O flaen bore'r Jubil fawr ;
Dysgwyliwn bellach i'r wawr godi,
  Mae'r seren gwedi myn'd i lawr :
Gwybodaeth Duw a döa'r ddaear,
  Bydd mawl yr Eglwys yn ei grym—
Cynulliad pobloedd at y Siloh,
  A babel wedi cwympo'n ddim.

Cadd yn ei gorph gystuddiau trymion,
  O dan y rhai'n fe gadwa'i le ;

A phob dadleuon yn yr Eglwys,
  A ffina'i feddwl tyner e';
Ac annuwioldeb ei gymydogion,
  Oedd iddo ef yn ofid llym:
Yn awr fe drow'd y groes yn goron,
  Nid rhaid ef mwyach oddef dim.

'Nawr 'rwy'n colli 'ngolwg arnat,
  'Dwy'n 'nabod dim o honot fry,
Nid wyt ti swm yr un o'r tywod,
  Nid wyt ti bwysau'r un o'r plu';
Nid tebyg wyt i un creadur,
  A welwyd mewn daearol fyd,
'Does arnat liw, na dull, na mesur,
  Er hyny sylwedd wyt i gyd.

A wyt ti'n gweled peth yr awrhon
  O ddwfn dirgelion Tri yn Un?
Pa fath olwg sy'n y nefoedd
  Ar a gym'rodd natur dyn?
A ydyw rhyfeddodau'r Duwdod,
  Yn dod i'th feddwl heb ddim rhi'?
Neu ynte wyt yn gwel'd efengyl,
  Yn llanw conglau'n daear ni?

Ai'n ol darluniad Watts neu Baxter,
  Mae gwaith y nef yn myn'd y'mla'n?
Gweddio, ymddiddan, a phregethu,
  Neu ynte dim ond clymu cân?
A yw 'difeirwch, ffydd, a gobaith,
  Wedi ymadaw'n llwyr yn awr,
A dim ond cariad yn teyrnasu,
  O boethder fflam yr eirias fawr?

A wyt ti'n ysgog fel y fellten,
  Y'nghanol yr ehander mawr?
A ydyw t'wysogaethau'r nefoedd
  Yn adnabyddus it' yn awr?

A wy't ti'n 'nabod pawb o'r seintiau,
  A rhif angylion sydd wahân ?
Ai am greadigaeth, neu am brynu,
  Mae nifer fwya'n seinio cân ?

A wyt ti'n cofio geiriau'r Beibl,
  Dy bleser penaf gyda ni ?
A yw 'madroddion y prophwydi,
  Yn lloni byth dy ysbryd di ?
A ydyw gweledigaeth Ioan
  Yn awr yn eglur o dy fla'n,
A'i ynte wyneb y JEHOVAH,
  Yn unig yw d'orphwysfa lân.

A wyt ti'n gwel'd dy gorph yn huno
  Yn mynwent Beuno dan y pridd?
Oes arnat hiraeth yn y nefoedd,
  Am wel'd yr adgyfodiad ddydd ?
A wyt ti'n cymhell yr angylion,
  I gasglu'r saint o gyrau'r byd ?
A'i ynte bod yn ddystaw lonydd,
  Yn mynwes Abr'am 'rwyt o hyd ?

Chwi'r angelion ddaeth yn lluaws,
  A'r n'wyddion da o'r nef i lawr,
Derbyniwch genadwri dirion
  I'w ddwyn yn ol i'r nef yn awr ?
Cymmanfa'r Beibl sydd yn llwyddo,
  Gair Duw sy'n seinio i bob lle,
Ysgolion Sabboth sy'n cynnyddu—
  Cyhoeddwch hyny iddo 'fe.

Ei forwyn rasol, Peggy Edwards,
  Chwe diwrnod fu hi farw o'i fla'n :
'Mhen deunaw dydd a 'chydig oriau,
  Aeth ar ei ol ei briod lân :
Ei serch a'i bryd oedd yn y nefoedd,
  Tra'r oedd hi'n aros ar y llawr ;

Yn nyddiau'i galar a'i ddwfn gystudd,
Fe'i cipwyd i'r llawenydd mawr.

Yn nyddiau'i hieuengctyd, er yn foreu
Yr Eglwys oedd ei chartref hi :
Ca'dd fod yn foddion gan Ragluniaeth,
I Charles ddod i'n cym'dogaeth ni.
Cyfoethogwyd hi a grasusau,
Ac amryw ddoniau'r nefoedd fry ;
I'w gorph, a'i blant a'i ras, a'i rinwedd,
Ymgeledd gymhwys iawn y bu.

Fel Mair gwrandawai Air y bywyd,
Fel Dorcas i'r tylawd y bu ;
Fel gwragedd duwiol Galilea,
Yr oedd yn gweini i'r Iesu cu ;
Ei thy, ei llaw, yn bena'i chalon,
Oedd helaeth iawn at achos Duw :
Mae hyny yn Charles ei mab yn hynod,
A'i anwyl briod sy eto'n fyw.

Boed gan yr Eglwys weddi ffyddlon,
Ar ran ei blant a'i wyrion ef,
Ar iddynt droi o lwybr natur,
I brofi grym efengyl gref :
Boed teyrnas Dduw ac achos Iesu,
Y'mysg ei deulu fawr a mân ;
A'u ffrwythau'n eglur dystioliaethu
Eu geni o ddwr a'r Ysbryd Glân.

Boed bendith byth ar sir Gaerfyrddin,
Am fagu'r impyn mawr ei ddawn :
Boed bendith byth ar deulu'r Bala,
Lle ca'dd ei godi'n uchel iawn :
Boed bendith Duw a'r ras yn helaeth,
Yn dylyn eu hiliogaeth ef ;
A llwyddiant i'r efengyl dawel,
Yn mhlith pob cenedl dan y nef.

Ar Ddafydd Charles, ei frawd, gorphwysed,
  Y Ddau-parth llawn o'i ysbryd e' ;
Ymdreched holl pregethwyr cymru,
  Mewn undeb ffydd i lanw ei le :
Mewn gostyngeiddrwydd ac addfwynder,
  I gario'r achos goreu'n mla'n ;
Na bo'r gogoniant fyth ymadael,
  Hyd onid elo'r byd ar dân.

Goddefwch bellach air o'm hofnau,
  'Rwy'n ei ddywedyd gyd a braw,
I'r cyfiawn hwn gael dianc ymaith
  O flaen rhyw ddrygau mawr a ddaw,
Yn y wlad, neu yn yr Eglwys,
  Y tyr rhyw blâ fel fflamau byw !
Ond d'wedai'n uchel wrth ymadael.
  Mae noddfa dawel iawn yw Duw !

PRIS
DWY GEINIOG.

J. L. JOHNS, ARGRAFFYDD, LLANBEDR.